

YMARFERIAD 1

EDRYCH AR Y FFYNHONNELL

Pwrpas yr ymarferiad hwn yw sicrhau bod y myfyrwyr yn dechrau ystyried sut mae dadansoddi deunydd maen nhw'n ei ddarllen. Dyw nodi'r hyn sy'n cael ei ddweud ddim yn ddigon; mae rhaid iddyn nhw feddwl am bethau eraill hefyd! Ewch dros y cwestiynau ar y dudalen Dadansoddi Ffynhonnell yn yr adran PETHAU I'W GOFYN.

PETHAU I'W GOFYN:

1. Pwy sy'n ysgrifennu? Os nad ydych chi'n gwybod eu henw, ydych chi'n gwybod beth yw eu gwaith? Beth mae hynny'n ei ddweud wrthy ch chi am y ffynhonnell?

2. Pa mor wrthrychol neu ddiuedd yw'r awdur? I wybod hynny, edrychwch ar deitl y papur newydd. Ydy e'n debygol o edrych yn gadarnhaol ar ddiwygio a newid cymdeithasol, neu'n negyddol? **Darllenwch y testun cyfan.** Ydy e'n gadarnhaol neu'n negyddol? Beth mae hynny'n ei ddweud wrthy ch chi am wrthrychedd y ffynhonnell ac i ba raddau gallwch chi ymddiried ynddi?

3. Pryd cafodd ei hysgrifennu? Ai sôn am ddigwyddiadau cyfoes y mae, neu oedd y materion dan sylw wedi digwydd ymhell cyn i'r ffynhonnell gael ei llunio? Sut gallai hynny effeithio ar y ffynhonnell?

4. Pa fath o ffynhonnell yw hi? Proffesiynol? Cyfreithiol? Crefyddol? Gwleidyddol? Er Gwybodaeth? Ai un peth sydd dan sylw yma, neu ydy hi'n cael ei defnyddio at sawl diben?

5. O ble mae'n dod? Pam mae'n adrodd am y digwyddiadau hyn – beth yw'r cysylltiad?

6. Pam cafodd y ffynhonnell ei hysgrifennu?

7. Pa broblemau sydd yma i'r darlennydd modern? Pa rannau o'r ffynhonnell sy'n anodd eu deall? Pa wybodaeth ychwanegol gallai fod arnoch chi ei hangen i ddeall yn llawn beth mae'r ffynhonnell yn ei ddweud wrthyh chi? Sut mae cael gafael ar yr wybodaeth yma?